**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Llofnodwyr Cyfamod y Lluoedd Arfog

**Siambr y Cyngor, Canolfan Ddinesig, Abertawe - Canolfan Ddinesig, Abertawe**

**Dydd Llun, 24 Medi 2018 am 2.00 pm**

**Yn bresennol:** J E Burtonshaw (Cadeirydd) yn llywyddu

**Sefydliadau Cynrychioliadol**

| | |
|---|---|
| Alyx Baharie | CGGA |
| Capten Chris Evans MBE | Catrawd Gymreig RLC 157 |
| Is-gomander Ruth Fleming | Uned wrth gefn y Llynges |
| Gemma Lelliott | Bellyful CIC |
| Adrian Matthews | EFT Consult |
| Natalie McCombe | Y Ffatri Babïau |
| Jackie Preston | Cyngor ar Bopeth |
| Adrian Rabey | Bwrdd Hyfforddiant Prydeinig |
| Antony Rabey | Aartic Training |
| John Richardson | Clwb Cyn-filwyr |
| Sandy Shaw | Clwb Cyn-filwyr |
| Jason Suller | Blesma |
| Nick Vanderpump | Help for Heroes |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Gareth Borsden | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Grace Halfpenny | Swyddog Cyswllt Rhanbarthol Cyfamod y Lluoedd Arfog |
| Spencer Martin | Cydlynydd Comisiynu'r Trydydd Sector a Chronfeydd Ymddiriedolaeth |
| Dominic Nutt | Tîm Cyfnodau Bywyd DASA |
| David Price Deer | Digwyddiadau Arbennig |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**

A Fischer, Sq Ldr Phil Flower, Byron Lewis a David Singletary

**35 Derbyn datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Dim.

**36 Cofnodion.**

**Penderfynwyd** cytuno bod cofnodion y panel a gynhaliwyd ar 23 Ionawr 2017 yn gofnod cywir.

**37 Cyflwyniad: swyddog cyswllt ar gyfer cyfamod y lluoedd arfog rhanbarthol.**

Croesawodd y Cadeirydd Grace Halfpenny i'w cyfarfod cyntaf gyda'r panel, yn sgîl ei phenodiad diweddar.

Diolchodd Grace Halfpenny i'r Cadeirydd am ei chroesawu a nododd ei bod yn edrych ymlaen at weithio gyda'r holl sefydliadau partner.

## 38 Diweddariad gan Aelodau'r Panel.

Rhoddodd aelodau'r panel y diweddaraf ar lafar am weithgareddau, digwyddiadau a llwythi gwaith presennol ac arfaethedig eu grwpiau a'u sefydliadau, gan gynnwys y meysydd canlynol:
Y Fyddin
Adroddodd Chris Evans â phleser fod Dinas a Sir Abertawe wedi ennill gwobr aur fel rhan o'r Cynllun Cydnabod Cyflogwyr yn ddiweddar. Nododd fod y gwaith cefndir a'r ymdrech a wnaed dros y 12 mis diwethaf wedi helpu i ennill y wobr ar ôl i'r awdurdod ennill y wobr arian yn flaenorol. Abertawe yw'r awdurdod cyntaf yng Nghymru i gyflawni'r llwyddiant hwn. Caiff y wobr ei chyflwyno mewn seremoni yng Nghaerdydd ym mis Tachwedd.

Nododd fod cyfle i gynnal seremoni codi'r faner ar gyfer Diwrnod y Lluoedd Arfog yn ystod penwythnos Sioe Awyr Cymru unwaith eto'r flwyddyn nesaf, a byddai angen trafod y pwnc hwn ymhellach.

Mae cynlluniau hefyd i gynnal digwyddiadau amrywiol i nodi 50 mlynedd ers cyhoeddi statws Abertawe fel dinas.

Nododd fod yr holl waith papur angenrheidiol wedi cael ei gyflwyno ar gyfer y gorymdeithiau sydd ar ddod.

Nododd fod dau ddiwrnod agored ychwanegol yn cael eu cynnal yn The Grange ar 22 a 29 Tachwedd, yn ogystal â digwyddiad i gyflogwyr ar 28 Tachwedd.

Nododd fod Catrawd 157 wedi ffurfio trefniant partneriaeth gydag Academi Chwaraeon Llandarcy yn ddiweddar.

Soniodd am y gampfa wych gan Bulldogs a agorwyd ym Maglan yn ddiweddar, ac a ariannwyd yn rhannol trwy grant cyfamod. Roedd y cyfleuster ar gael i'w ddefnyddio gan gyn-filwyr am ddim.

Dywedodd y byddai adolygiad o drefniant cyfamod yn dechrau cyn bo hir, ac y byddai'n rhaid cysylltu â'r holl asiantaethau partner gan ofyn iddynt ymddiswyddo, gan annog sefydliadau newydd i ymuno.

Digwyddiadau Arbennig
Nododd David Price-Deer fod digwyddiad 'Nawr yr Arwr' yn cael ei gynnal yn Neuadd Brangwyn ac o'i chwmpas rhwng 25 a 29 Medi, a bod tocynnau ar gael o hyd ar gyfer rhai perfformiadau.

Nododd y byddai'r digwyddiad 'Distawrwydd yn y Sgwâr' yn cael ei gynnal yn Sgwâr y Castell am 11am ar Sul y Cofio.
Help for Heroes
Adroddodd Nick Vanderpump am y digwyddiad 'Diwrnod Darganfod' llwyddiannus a gynhaliwyd ym Mhontypridd ym mis Awst.

Soniodd am lwyddiant y cynllun hyfforddi a gynhaliwyd gyda'r Gweilch/URC, sydd wedi arwain at sawl cyn-filwr yn ennill cymwysterau hyfforddi.

Cyngor ar Bopeth
Adroddodd Jackie Preston fod y gwasanaeth wedi symud i fangre newydd ar Stryd y Gwynt yn ddiweddar. Dywedodd hefyd y byddai'r gwasanaeth yn dathlu ei ben-blwydd yn 80 y flwyddyn nesaf.

Bellyful CIC
Cyflwynodd Gemma Lelliott, Rheolwr Datblygu Busnes Bellyful CIC, y cwmni, sydd wedi'i leoli yn Abertawe ac sy'n gweithredu fel menter gymdeithasol sy'n ceisio mynd i'r afael â thlodi bwyd trwy ddarparu gwasanaeth bwyd o safon i'r cyhoedd, yn enwedig pobl hŷn a phobl fwyaf diamddiffyn y gymuned.

Nododd fod y busnes yn ceisio ehangu o'i wreiddiau yn ardal Abertawe, yn enwedig yn ystod misoedd y gaeaf.

Y Ffatri Babïau
Adroddodd Natalie Mccombe fod ei sefydliad yn rhan o'r grŵp 'Abertawe'n Gweithio', a oedd yn bwriadu datblygu ei gyswllt cyn-filwyr ei hun.

Atgoffodd hi'r panel fod ei sefydliad yn gallu darparu cefnogaeth a chyngor cyflogadwyedd i gyn-filwyr.

Clwb Cyn-filwyr
Adroddodd Sandy Shaw fod y sefydliad a ffurfiwyd 7 mis yn ôl bellach wedi ehangu o gynnal 2 gyfarfod yr wythnos i gynnal 5, a'i fod bellach yn cynnwys ardaloedd ar draws y ddinas.

Blesma
Adroddodd Jason Suller ei fod wedi cael ei benodi yn swyddog allgymorth ar gyfer y sefydliad yn ddiweddar, a'i fod yn bwriadu cynnal digwyddiadau yn yr ardal hon ac ehangu aelodaeth ar draws y wlad.

Amlinellodd y cynigion dros ddatblygu 'Rhaglen Gwirfoddolwyr Digidol' sy'n ceisio annog pobl i fynd ar-lein a mynd i'r afael â materion TG sylfaenol, megis e-bost/bancio etc.

Tîm Cyfnodau Bywyd
Nododd Dominic Nutt ei fod wedi derbyn cyfrifoldeb am y rhwydwaith 50+ yn ddiweddar a'i fod yn bwriadu ei ehangu a denu aelodau newydd i'r grŵp.

Nododd fod rhai o aelodau presennol y rhwydwaith yn ceisio dod yn wirfoddolwyr ar gyfer grwpiau, a'i fod yn hapus i rannu unrhyw gais/wybodaeth oddi wrth Aelodau'r Panel â'r grŵp hwn.

Y Llynges
Dywedodd Ruth Fleming ei bod wedi mynd i ddigwyddiad lansio cyfleuster campfa 'Bulldogs' ym Maglan, ac roedd yn canmol y cyfleuster gwych.

Croesawodd y syniad o osod meinciau 'Cofio' ar draws y ddinas.

Cyfeiriodd at y digwyddiad 'Cofio' posib yn Sgwâr yr Amgueddfa mewn cydweithrediad â'r Lleng Brydeinig Frenhinol, ac at y cynlluniau i gynnal gêm rygbi i fenywod rhwng y Llynges Frenhinol ac Abertawe.

CGGA
Nododd Alex Baharie fod ei sefydliad hefyd yn rhan o'r rhwydwaith "Cyflogadwyedd", a soniodd am wefan 'Gwirfoddoli Cymru' gan nodi efallai byddai Aelodau'r Panel yn meddwl ei bod yn ddefnyddiol.

EFT
Cyfeiriodd Adrian Matthews at y Cynllun Peilot Lles y mae ei gwmni'n gobeithio ei gyflwyno a fydd, gobeithio, yn cynnwys cyn-filwyr.

Bwrdd Hyfforddiant Prydeinig
Nododd Adrian Rabey fod y cynllun y mae ei gwmni'n ei gynnig mewn perthynas ag ailhyfforddi yn cael ei ehangu i gyn-swyddogion Heddlu De Cymru yn ogystal â chyn-filwyr y Lluoedd Arfog.

Nododd fod angen ailgyflwyno cais Cyfamod Cymunedol y cwmni'n fuan.

Bwrdd Hyfforddiant Prydeinig
Adroddodd Antony Robey am y gwaith parhaus a wnaed gyda Help for Heroes mewn perthynas â'r cynllun cyfweliadau gwarantedig.

Nododd fod y cwmni hefyd yn y broses o gyflwyno cais am Wobr Aur Cydnabod Cyflogwyr.

Cyngor Abertawe

Adroddodd June Burtonshaw ei bod yn parhau i weithio gydag asiantaethau partner ar achosion unigol a ddaw i'w sylw.

Cyfeiriodd at y cynnig i osod y meinciau 'Cofio' ar draws y ddinas, a noddodd ei bod yn bwriadu cwrdd â Phil Flower yn fuan i drafod cynigion ar gyfer digwyddiadau sydd ar ddod.

Diolchodd Spencer Martin i'r holl asiantaethau partner am eu cymorth i ennill y wobr aur.

Daeth y cyfarfod I ben am 2.48 pm

**Cadeirydd**